# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (205)

# Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mercher, 24 Mai 2006

# Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma**

**Eitem 1 - Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio**

**NDM3060 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu:

1. Bod Pwyllgor, i'w adnabod fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (2) 2006-4, yn cael ei sefydlu yn unol â Rheol Sefydlog 17 y Cynulliad i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad yng nghyswllt y materion y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r cynnig hwn a nodir yng nghyswllt pob mater yn yr atodlen honno a bod swyddogaethau'r Cynulliad yng nghyswllt y rheiny'n cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw.

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Carwyn Jones (Cadeirydd)
Glyn Davies
Jocelyn Davies
Tamsin Dunwoody

3. Bod y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 17.16 neu ar 30 Mehefin 2006, pa un bynnag a fydd gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyr penderfynu mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, yna, yn yr achos hwnnw, dirprwyir y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, yng nghyswllt mater o'r fath, i'r Prif Weinidog.

**Atodlen**

**CAIS CYNLLUNIO A ALWYD-I-MEWN DAN ADRAN 77 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GAN Wm MORRISON PLC A SHOPARAMA LTD AM SIOP FWYD A MAES PARCIO CYSYLLTIOL YN HEN SAFLE BROWN-LENOX, GER YR A470, PONTYPRIDD.**

**APÊL CYNLLUNIO DAN ADRAN 78 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GAN MORBAINE LTD AM SIOP FWYD DOSBARTH A1, GORSAF BETROL/GOLCHI CEIR, PARCIO A GWASANAETHAU A CHYFLEUSTERAU CYSYLLTIOL YNG NGHLWB RYGBI PONTYPRIDD. HEOL SARDIS, PONTYPRIDD.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 38; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 38
**Derbyniwyd y cynnig**

**.........................................**

**2.01pm**

**Eitem 2 - Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

Cafodd pob cwestiwn ei ateb. Tynnwyd cwestiynau 1+3+7+9+15 yn ôl.

**.........................................**

**2.39pm**

**Eitem 3 - Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

Cafodd yr 13 cwestiwn cyntaf eu hateb. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl.

**.........................................**

**3.12pm**

**Eitem 4 – Datganiad Busnes Drafft Diwygiedig**

Cytunwyd ar y Datganiad Busnes drafft.

**.........................................**

**3.16pm**

**Eitem 5 - Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 i Brif Weinidog Cymru**

**NDM3061 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i'r Prif Weinidog holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn neu o dan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006, ac

eithrio’r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw:

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau’r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo’n briodol, i’r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.

**Gwelliant 1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ar ôl 'na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw' rhoi:

'a'r rhai dan adran 11 y Ddeddf (sy'n ymwneud â'r p•er i roi cymorth ariannol i alluogi neu hwyluso darparu gwasanaethau a/neu gyfleusterau trafnidiaeth awyr)'

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 23; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ar ôl 'na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw' rhoi:

'a'r rhai dan Adran 5 y Ddeddf (sy'n ymwneud â'r p•er i sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth)'

**Gwelliant 2**
O Blaid 10; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 46
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Y cynnig,**
O Blaid 37; Ymatal 0;Yn erbyn 13; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y cynnig**

**.........................................**

## 3.49pm

## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006

### NDM3062 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mai 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn

O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn

**NDM3063 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mai 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mai 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 37; Ymatal 0; Yn erbyn 5; Cyfanswm 42
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**.........................................**

## 3.50pm

## Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo The Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales Rules 2006 o dan Reol Sefydlog 26

**NDM3064 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 26, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) Rules 2006 [copi Saesneg yn unig], a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mai 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46

**Derbyniwyd y cynnig**

**.........................................**

## 3.51pm

## Eitem 8 - Dadl am drefniadau'r Cynulliad i gydweithredu â busnesau o dan Reol Sefydlog 6.6

**NDM3065 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 6.6 (xiii):

1. Yn nodi'r ffordd dryloyw y mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal ei pherthynas â'r byd busnes;

2. Yn cydnabod yr angen parhaus i weithio gyda'r sector busnes ac undebau llafur wrth ddatblygu polisi.

**Gwelliant 1. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Dileu’r gair 'tryloyw' ym mhwynt 1.

Cynhaliwyd pleidlais:

**Gwelliant 1**
O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Prif Weinidog i wneud popeth o fewn ei allu i'w gwneud yn fwy anodd i swyddi gweithgynhyrchu gael eu hadleoli dramor, trwy wella hawliau gweithwyr yng Nghymru.

**Gwelliant 2**
O Blaid 13; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi i ba raddau y mae wedi llwyddo i adfachu cymorth grant a ddyfarnwyd i gwmnïau a gefnodd ar Gymru wedi hynny.

**Gwelliant 3**
O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn busnesau cynhenid.

**Gwelliant 4**
O Blaid 13; Ymatal 8; Yn erbyn 27; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi sylw penodol i'r diwydiannau bwyd a phrosesu bwyd, yn wyneb y colledion swyddi diweddar.

**Gwelliant 5**
O Blaid 13; Ymatal 8; Yn erbyn 27; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu system rhybudd cynnar ar gyfer busnesau sy'n wynebu colledion swyddi, fel bo Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu gweithredu ar fyrder i helpu i liniaru colledion swyddi.

**Gwelliant 6**
O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 6**

**Gwelliant 7. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu strategaeth swyddi gwyrdd.

**Gwelliant 7**
O Blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 7**

**Gwelliant 8. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod gan yr adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yr un statws ac apêl brand ag Awdurdod Datblygu Cymru.

**Gwelliant 8**
O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 8**

**Gwelliant 9. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar bwyllgorau pwnc perthnasol y Cynulliad i ystyried materion a godir yn y Cyngor Partneriaeth Busnes ac i gyflwyno argymhellion i'r Gweinidog yn unol â hynny.

**Gwelliant 9**
O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 9**

**Gwelliant 10. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ad-drefnu'r Cyngor Partneriaeth Busnes.

**Gwelliant 10**
O Blaid 11; Ymatal 9; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 10**

**Gwelliant 11. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud datganiad ysgrifenedig neu lafar i'r Cynulliad ar alwadau a gofynion a wneir gan y Cyngor Partneriaeth Busnes.

**Gwelliant 11**
O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 11**

**Y cynnig,**
O Blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 21; Cyfanswm 48
**Derbyniwyd y cynnig**

**……………………………………**

**4.51pm**

**Cynnig Trefniadol –** Cynigiodd y Trefnydd gynnig trefniadol i ohirio'r Ddadl Fer a ganlyn -

**NDM3066 Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Archfarchnadoedd – Bendith neu Felltith?

ac i ganiatáu i'r Ddadl Fer a ganlyn gael ei chyflwyno yn ei lle -

**NDM2975** Eleanor Burnham (Gogledd Cymru) Ennyn diddordeb pobl ifanc heddiw – pleidleisio yn 16 oed?

**4.52pm**

**Dadl Fer – NDM2975** Eleanor Burnham (Gogledd Cymru) Ennyn diddordeb pobl ifanc heddiw – pleidleisio yn 16 oed?

**.......................................**

**.......................................**

# Daeth y cyfarfod i ben am 5.11pm

**••••••••••••••••••••••••••••••••••••••••••••••••..**

# Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am

# 2.00pm ddydd Mawrth, 6 Mehefin 2006

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**